sicrhau bod cyfathrebiadau'n
**gweithio i bawb**

# Hysbyseb ar gyfer trwydded Gwasanaethau Ychwanegol radio cenedlaethol

Dyddiad Cyhoeddi: 25 Hydref 2021
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 17 Ionawr 2022

# 1. Trosolwg

1.1 Trwydded a roddir gan Ofcom ar gyfer defnyddio capasiti dros ben ar amleddau a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau darlledu sain yw Trwydded Gwasanaethau Ychwanegol. Dim ond un Drwydded Gwasanaeth Ychwanegol y mae Ofcom yn ei chyhoeddi. Ar hyn o bryd, mae'r drwydded hon yn cael ei dal gan INRIX UK Ltd ac mae'n defnyddio capasiti sbâr o'r amleddau a ddefnyddir i ddarlledu Classic FM i drawsyrru gwybodaeth am draffig a theithio ar ffyrdd i ddyfeisiau llywio yn y car. Bydd y drwydded bresennol yn dod i ben ar 28 Chwefror 2022.

1.2 Ar y 7fed o Fedi fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad (https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0019/224137/consultation-additional-services-licence.pdf) a nododd ein cynigion gyda golwg ar rai o nodweddion y drwydded: hyd y drwydded, y capasiti dros ben sydd ar gael ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Ychwanegol o dan y drwydded arfaethedig, a lefel y taliad i'w wneud gan ddeiliad newydd y drwydded yn seiliedig ar Ganran benodol o Refeniw Cymwys ("PQR"). Mae'r ymgynghoriad hefyd yn nodi manylion ynghylch sut byddai Ofcom yn dyfarnu'r drwydded.

1.3 Mae'r ddogfen hysbysebu hon yn cynnwys hysbysiad o gynnig Ofcom i ddyfarnu trwydded Gwasanaethau Ychwanegol newydd yn unol ag adran 116 Deddf 1990 ('yr Hysbysiad'). Ochr yn ochr â'r Hysbysiad hwn, rydym wedi cyhoeddi ein datganiad yn dilyn yr ymgynghoriad, sy'n nodi ein safbwynt polisi terfynol yng nghyswllt y nodweddion hynny. Yn fyr, rydym wedi penderfynu:

a) y bydd y drwydded yn para naw mlynedd a dau fis, gan ddod i ben heb fod yn hwyrach na 30 Ebrill 2032

b) y bydd faint o gapasiti dros ben sydd ar gael yr un fath â'r drwydded bresennol, ac fel y nodir yn Atodiad 1; ac

c) y bydd lefel y taliad (blynyddol) sydd i'w wneud gan ddeiliad y drwydded newydd yn seiliedig ar Ganran o Refeniw Cymwys a osodir ar 4%.